# Grŵp Gwybodaeth Tai: cofnodion y cyfarfod

Dydd Iau 22 Mehefin 2023 – 10:00-12:30

| **Mynychwyr** | | | |
|---|---|---|---|
| Scott | Armstrong | SA | Llywodraeth Cymru |
| David | Blair | DB | Llywodraeth Cymru |
| Stephen | Chamberlain | SC | Llywodraeth Cymru |
| Cerys | Clark | CC | CIH Cymru |
| Paul | Conway | PC | Trivallis |
| Rhian | Davies | RD | Llywodraeth Cymru |
| Rachel | Dolman | RD | Llywodraeth Cymru |
| Ciaran | Downey | CD | Llywodraeth Cymru |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Sir Ddinbych |
| Carol | Evans | CE | Cyngor Conwy |
| Alun | Evans | AE | Cyngor ar Bopeth |
| Tim | Evans | TE | Llywodraeth Cymru |
| Jonathan | Fudge | JF | Llywodraeth Cymru |
| Silja | Guggisberg | SG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Sarah | Hosken-Jones | SHJ | Housemark |
| Darren | Hatton | DH | Llywodraeth Cymru |
| Chele | Howard | CH | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Adam | Jurd | AJ | Llywodraeth Cymru |
| Jim | McKirdle | JM | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Matt | Miller | MM | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Anthony | Newby | AN | Llywodraeth Cymru |
| Llio | Owen | LO | Llywodraeth Cymru |
| Mike | Potts | MP | Cyngor Casnewydd |
| Joanna | Rees | JR | Barcud |
| Avril | Roberts | AR | CLA Cymru |
| Manon | Roberts | MR | GIG Cymru |
| Paul | Robinson | PR | Llywodraeth Cymru |
| David | Rowlands | DR | Tai Pawb |
| Bob | Smith | BS | Prifysgol Caerdydd |
| Steffan | Smith | SS | Llywodraeth Cymru |
| Elizabeth | Taylor | ET | TPAS - Tenant Engagement |
| Bethany | Turner | BT | CLA Cymru |
| Gowan | Watkins | GW | Llywodraeth Cymru |
| Tony | Wilkins | TW | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |
| **Cyflwynwyr** | | | |
| Gareth | Brand | GB | Llywodraeth Cymru |
| Ashley | Caddick | AC | Awdurdod Cyllid Cymru |
| Ieuan | Davies | ID | Llywodraeth Cymru |
| Heledd | Fflur Jones | HFJ | Cyngor Gwynedd |
| Holly | Flynn | HF | Llywodraeth Cymru |
| Dave | Jones | DJ | Awdurdod Cyllid Cymru |
| Luned | Jones | LJ | Llywodraeth Cymru |
| Craig | McLeod | CM | Llywodraeth Cymru |
| Phil | Nelson | PN | Llywodraeth Cymru |
| Sarah | Rhodes | SR | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| **Yn cymryd cofnodion** | | | |
| Florence | Milne | FM | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Voyce | SV | Llywodraeth Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | | |
| Helen | Bevan-Jones | HBJ | Bron Afon |
| Alun | Evans | AE | Cyngor ar Bopeth |
| Mark | Harris | MH | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Chantal | Jordan | CJ | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Sarah | Scotcher | SS | Community Housing Cymru Group |
| Kirsty | Wells | KW | Housemark |
| Emma | Williams | EW | Llywodraeth Cymru |
| Louise | Woodfine | LW | GIG Cymru |

| 1 | Croesawu a Chyflwyno | Sarah Rhodes, Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Croesawodd SR bawb a chyflwynodd yr agenda. Mae SR wedi cymryd yr awenau oddi wrth Amelia John fel y Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai.<br><br>Darparwyd cyfieithu ar y pryd.<br><br>Bydd cyflwyniadau yn cael eu rhannu yn dilyn y cyfarfod. | | |
| 2 | Ail Gartrefi – Cyd-destun Polisi a Phwysigrwydd Tystiolaeth | David Blair, Llywodraeth Cymru |
| Rhoddodd DB gyflwyniad yn trafod y canlynol:<br>- Cytundeb Cydweithio<br>- Y gwaith mae'r tîm yn ei wneud gan gynnwys newidiadau i drethiant lleol ar ail gartrefi, Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg a grantiau Cartrefi Gwag.<br>- Y cynllun peilot yn Nwyfor lle mae nifer o ymyriadau yn cael eu treialu. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Ail Gartrefi - beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym? | Luned Jones, Craig McLeod, Holly Flynn, Dave Jones, Ashley Caddick |

Rhoddodd LJ gyflwyniad yn trafod y canlynol:

- Erthygl LIC ar ail gartrefi a gyhoeddwyd ar 20 Mehefin, yr un diwrnod ag allbwn yr SYG o Gyfrifiad 2021 ynghylch ail gartrefi.
- Erthygl yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau data ar ail gartrefi. Mae'n esbonio nad oes diffiniad safonol o ail gartref a bod gwahanol ffynonellau yn defnyddio diffiniadau gwahanol.

Rhoddodd CM gyflwyniad yn trafod y canlynol:

- Y diffiniad o ail gartrefi a ddefnyddir yn y cyfrifiad a'r cwestiynau a ofynnir yn y cyfrifiad yn ogystal â chanlyniadau'r cyfrifiad.
- Roedd y canlyniadau hyn yn cynnwys y canlynol: roedd gan 38 o wardiau gyfradd o dros 50 o dai gwyliau fesul 1,000 o anheddau ac roedd tua 2/3 o'r rhai a ddefnyddiodd dai gwyliau yn Sir Benfro yn dod o Gymru, a de Cymru yn bennaf.
- Mae rhagor o ganlyniadau ar gael ar y sleidiau.

Trafodaeth:
GW: ydyn ni'n gwybod faint o gartrefi sy'n defnyddio tai gwyliau?
LJ: Mae data Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd yn cynnwys nifer y cartrefi gwyliau, a nifer yr unigolion sy'n defnyddio cartrefi gwyliau (ni chyhoeddir unrhyw ddata ar nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio cartrefi gwyliau).

Rhoddodd HF gyflwyniad yn trafod y canlynol:

- Data treth cyngor: pa ddata sydd ar gael a rhai ystadegau allweddol.
- Derbynnir data ar ddwy ffurf: cipluniau o lefel eiddo o systemau Cyllid a Budd-daliadau Awdurdodau Lleol yn ogystal â ffurflenni anheddiadau blynyddol treth gyngor.

MM: Yn y gorffennol, mae pobl wedi ceisio osgoi talu'r dreth gyngor drwy benderfynu beth i ddatgan i'r awdurdod treth gyngor a dewis yr un sy'n golygu eu bod yn talu'r dreth leiaf. Beth sy'n stopio pobl rhag gwneud hyn?
GB: Ansicr o'r union ateb – gall fynd i ffwrdd a chael gwybod gan gydweithwyr.
SS: Mae gan CH brofiad blaenorol o weithio ar y maes hwn ac mae gwiriadau banc ar lefel leol a thystiolaeth arall sydd ei hangen i geisio atal hyn.

GW: Pam nad oes data ail gartrefi ar gyfer Sir Benfro?
GB: Maen nhw'n gallu darparu data ar lefel yr awdurdod lleol, ond nid oes gennym ddata daearyddol manylach ar hyn o bryd.

Rhoddodd DJ ac AC gyflwyniad yn trafod y canlynol:

- Y data Treth Trafodiadau Tir (LTT) sy'n cael eu cyhoeddi.
- Mae cyfraddau uwch yn cael eu defnyddio ar gyfer ail gartrefi ac eiddo prynu i osod. Mae cyfraddau'n amrywio'n bennaf oherwydd maint awdurdodau lleol. Mae siartiau ar gael ar y sleidiau.

| | | |
|---|---|---|
| | - Mae cwestiwn newydd wedi'i ychwanegu at y Ffurflen Dreth yn gofyn am y bwriad y tu ôl i drafodion cyfradd uwch, sy'n golygu y gallai gwell data ar bryniannau ail gartrefi fod ar gael yn y dyfodol.<br><br>MM: A yw'n bosibl croesgyfeirio data LTT gyda data Rhentu Doeth Cymru?<br>AC: Ar hyn o bryd defnyddir data Rhentu Doeth Cymru am resymau gweithredol o fewn ACC, ond mae hyn yn bennaf ar sail achosion unigol. Rydym bellach yn gweithio i nodi sut y gallwn ddefnyddio data Rhentu Doeth Cymru fel rhan o'n cyhoeddiadau ystadegau.<br><br>RD: un o gyfyngiadau data Rhentu Doeth Cymru yw nad yw pobl bob amser yn dadgofrestru pan nad oes ganddynt eiddo prynu i osod mwyach, a all arwain at gofrestru nifer o bobl i'r un eiddo ar yr un pryd.<br><br>Rhoddodd GB gyflwyniad yn trafod y canlynol:<br>- Y data ardrethi annomestig sydd ar gael (ffurflenni cyllid yr Awdurdod Lleol, data bilio awdurdodau lleol lefel eiddo a data graddfeydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio lefel eiddo)<br>- Y meini prawf newydd ar gyfer gwyliau hunanarlwyo<br>- Cyd-destun polisi ardrethi annomestig<br><br>GW: Sut y cafodd nifer y nosweithiau a osodwyd, a'r nosweithiau oedd ar gael i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi annomestig, eu cyfrifo? A oes unrhyw lwfansau ar gyfer tywydd gwael yn byrhau'r tymor gwyliau arferol ac ati?<br>GB: Na, does dim lwfansau penodol yn cael eu gwneud o fewn y meini prawf newydd - roedd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r newidiadau i'r meini prawf.<br><br>Rhoddodd PN gyflwyniad yn trafod y canlynol:<br>- Y data gosod tymor byr sydd ar gael a rhai ystadegau allweddol o'r data.<br>- Trafododd PN hefyd rhai o'r heriau o ran defnyddio'r data.<br>- Ystadegau.tai@llyw.cymru.<br><br>LJ: A yw'n bosibl cyfuno data ardrethi annomestig a'r dreth gyngor?<br>GB: Byddai'n wych pe gallem fodd bynnag, pan fydd pobl yn symud rhwng rhestrau, roi Rhif Cyfeirnod Unigryw newydd iddynt gan ei gwneud hi'n anodd cyd-fynd â'r data. Rydym yn gweithio arno i'w gyflwyno yn y dyfodol. | |
| 4 | Cynlluniau gwerthuso ar gyfer ail gartrefi Dwyfor a chynllun peilot fforddiadwyedd | Ieuan Davies, Llywodraeth Cymru |
| | Rhoddodd ID gyflwyniad yn trafod y canlynol:<br>- Y gwerthusiad i weithredu'r prosiect peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd. Y prif nod yw asesu effeithiolrwydd gweithgareddau peilot i gyflawni'r nodau priodol.<br>- Mae'r contract yn mynd tan fis Rhagfyr 2026 lle bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi. Yn y cyfamser, bydd adroddiad gwaelodlin yn cael ei gyhoeddi yn Hydref 2024 a gwaith gwerthuso prosesau'n cael ei gyflawni yn Hydref 2025. Bydd dysgu parhaus a rennir yn cael ei wneud drwy gydol yr amser.<br>- Bydd astudiaeth tri cham: Cam 1: Mapio data, Cam 2: Gwerthuso prosesau, Cam 3: Gwerthuso effaith. | |

| 5 | Ail gartrefi a chartrefi gwyliau: safbwynt awdurdod lleol | Heledd Fflur Jones, Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| | Rhoddodd HFJ gyflwyniad yn trafod y canlynol:<br>- Trosolwg o'r gwaith a wneir gan yr awdurdod lleol o ran Erthygl 4.<br>- Sut y casglwyd tystiolaeth a newidiadau allweddol mewn ail gartrefi rhwng 2018 a 2022 gan gynnwys ystadegau ar y cynnydd mewn cartrefi gwyliau dros y pedair blynedd diwethaf.<br>- Anawsterau gyda'r data oherwydd anghysondebau o wahanol ffynonellau data. | |
| 6 | Diweddariad y Ganolfan Gydweithredol ar gyfer Tystiolaeth Tai (CaCHE) | Bob Smith, Prifysgol Caerdydd |
| | Rhoddodd BS ddiweddariad ar CaCHE.<br><br>Rydym bellach ar ail gam ein gwaith a ddechreuodd fis Tachwedd diwethaf ac a fydd yn parhau am y pum mlynedd nesaf. Mae gennym gyllideb lai a llai o brifysgolion yn cymryd rhan. Rydym wedi adolygu'r pedair thema eang ar gyfer y pedair blynedd nesaf sydd wedi'u nodi yn y papur. Y themâu yw:<br>- Tai a'r Economi<br>- Anghydraddoldebau tai<br>- Tai a Lle<br>- Tai a'r Amgylchedd<br><br>Yn y papur mae nifer o adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi ers ein cyfarfod diwethaf. Tua deg adroddiad sydd i'w gweld i gyd ar y wefan.<br><br>Yr hydref diwethaf gwnaethom gyflawni darn bach o waith i Lywodraeth Cymru ar reoli rhent. Mae'r papur hwnnw bellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. | |
| 7 | UFA | |
| | TW (SYG): Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ynghylch ystadegau poblogaeth a mudo. Bydd yn rhedeg o 29 Mehefin tan 26 Hydref. Bydd digwyddiadau lansio hybrid yn Llundain a Chaerdydd (4 a 6 Gorffennaf yn y drefn honno).<br><br>Eitem agenda yn y dyfodol: os oes meysydd penodol y credwch a fyddai'n ddefnyddiol, gallwch anfon syniadau i KASevents.<br><br>Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Medi 2023. Rydym yn bwriadu parhau i gynnal y cyfarfodydd hyn yn rhithiol. | Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu mwy o wybodaeth am ymgynghoriad yr SYG i'r grŵp. |

| **Grŵp Gwybodaeth Tai**<br>22 Mehefin 2023<br>Crynodeb o’r Pwyntiau Gweithredu | | |
|---|---|---|
| 1 | Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu mwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch ystadegau poblogaeth a mudo i'r grŵp. | |